Newidiadau i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol a'r Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant

Pecyn Gwybodaeth

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Newidiadau i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol a'r Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant

Cyflwyniad

Ar 24 Tachwedd 2008 cyflwynwyd newidiadau i Gymhorthdal Incwm i rai rhieni unigol a newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant. Cyfeiriwch at Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Rhieni Unigol a Diwygiadau Amrywiol) 2008; mae copi o'r ddogfen hon ar gael ar-lein.

www.opsi.gov.uk/si/si2008/draft/ukdsi_9780110843285_en_1

Mae'r rheoliadau'n datgan na fydd hawl gan rieni unigol â phlentyn ifancaf sy'n 7 oed neu'n hŷn i gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig o 2010. Yn hytrach, gall y rhai sy'n gallu cymryd gwaith cyflogedig hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r Rheoliadau'n cydnabod y bydd rhai rhieni unigol a rhieni yn wynebu amgylchiadau y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt a darparu hyblygrwydd ychwanegol yn rheolau'r Lwfans Ceisio Gwaith i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Bwriad y Pecyn Gwybodaeth hwn yw rhoi gwybodaeth am y newidiadau, cynorthwyo dealltwriaeth a galluogi sefydliadau allanol i ymdrin ag ymholiadau gan gwsmeriaid.

Cynnwys

1. Cefndir **4**

2. Newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant **6**

3. Amserlen ar gyfer symud rhieni unigol oddi ar Gymhorthdal Incwm **9**

4. Newidiadau ar gyfer grwpiau penodol **11**

5. Taliadau a didyniadau eraill **13**

6. Y broses ar gyfer terfynu Cymhorthdal Incwm **16**

7. Rhoi gwybod i rieni unigol am y newidiadau **18**

Atodiad 1 – Taflenni ffeithiau **20**

Atodiad 2 – Pecyn cymorth **21**

Atodiad 3 – Gwybodaeth ddefnyddiol a dolenni **22**

Atodiad 4 – Amserlen o'r newidiadau **23**

Atodiad 5 – Llythyr Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol **37**

Atodiad 6 – Llythyr ymgyrch bostio'r newidiadau **38**

1. Cefndir

1.1 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2020. Ar hyn o bryd mae 2.9 miliwn o blant yn byw mewn tlodi. Yn ogystal â gwneud teuluoedd yn well eu byd, mae gan waith â thâl fuddiannau pwysig eraill yn cynnwys gwella iechyd a lles a rhagolygon rhieni a phlant ar gyfer y dyfodol.

1.2 Ers 1997 gwnaed cynnydd sylweddol yn y gwaith o godi'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer rhieni unigol i 56.3 y cant ond rydym yn wynebu heriau mawr o hyd i ddileu tlodi plant. Mae dros hanner - 58 y cant - o blant mewn teuluoedd rhieni unigol nad ydynt yn gweithio yn byw mewn tlodi, o gymharu â 19 y cant o blant rhieni unigol sy'n gweithio'n rhan-amser a 7 y cant o'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser.

1.3 Mae polisïau'r Llywodraeth ar gyfer rhieni unigol, felly, yn gydbwysedd rhwng rhoi cymorth ariannol a chymorth arall i gynorthwyo eu teuluoedd a chyfrifoldebau ehangach i godi teuluoedd a phlant allan o dlodi. Ar y sail hon, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'r egwyddor, y dylid disgwyl i rieni unigol sy'n gallu gweithio ac yn hawlio budd-daliadau chwilio am waith â thâl, unwaith bydd eu plant yn hŷn.

Y Newidiadau

1.4 Ar 24 Tachwedd 2008 cyflwynwyd newidiadau sy'n golygu ni fydd hawl gan rieni unigol sydd â phlant hŷn sy'n gwneud cais newydd neu ail gais am fudd-dal gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig.

1.5 O 2010, ni fydd y mwyafrif o rieni unigol â phlentyn ifancaf sy'n 7 oed neu'n hŷn yn cael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig bellach. Yn hytrach, gall y rhai a fydd yn gallu cymryd cyflogaeth â thâl wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith a gall y rhai ag anabledd neu gyflwr iechyd wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

1.6 Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn 3 cham a byddant yn effeithio ar:

Y mwyafrif o rieni unigol sy'n gwneud cais newydd neu ail gais sydd â:

- plentyn ifancaf 12 oed neu drosodd o 24 Tachwedd 2008;
- plentyn ifancaf 10 oed neu drosodd o 26 Hydref 2009; a
- plentyn ifancaf 7 oed neu drosodd o 25 Hydref 2010.

Bydd y Cymhorthdal Incwm presennol i'r mwyafrif o rieni unigol yn dod i ben erbyn:

- Rhagfyr 2009 ar gyfer rhieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 12 oed;
- Medi 2010 ar gyfer rhieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 10 oed neu drosodd; a
- Ebrill 2011 ar gyfer rhieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 7 oed neu drosodd.

1.7 I ategu'r newidiadau hyn, mae cyfres o fesurau (gweler Atodiad 2) wedi'u cynllunio i helpu rhieni unigol baratoi ar gyfer gwaith a symud i mewn i waith. Bydd y mesurau hyn yn cefnogi'r ddarpariaeth bresennol sydd eisoes ar gael i helpu rhieni unigol.

Eithriadau

1.8 Gall rhai rhieni unigol barhau i gael Cymhorthdal Incwm nes y bydd eu plant ifancaf yn cyrraedd 16 oed o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft:

- os ydynt yn rhiant maeth a bod ganddynt blentyn maeth yn byw gyda hwy;
- os ydynt yn cael Lwfans Gofalwr;
- os oes ganddynt blant sydd â hawl i gyfradd ganol neu gyfradd uchaf elfen ofal y Lwfans Byw i'r Anabl;
- oes ganddynt anabledd neu gyfwr iechyd.

1.9 Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Caiff rhieni unigol ragor o wybodaeth am p'un a fydd y newidiadau yn berthnasol iddynt hwy mewn trafodaethau gyda'u hymgynghorydd.

Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol

1.10 Cyflwynwyd Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith i rieni unigol a effeithiwyd gan y newidiadau i roi mwy o gefnogaeth iddynt. Fe'u cynhelir bob tri mis yn ystod y flwyddyn cyn i Gymhorthdal Incwm rhieni unigol ddod i ben er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw ac egluro'r gwahaniaethau yn y budd-daliadau a'r cyfrifoldebau.

1.11 Caiff y cyfweliadau chwarterol hyn eu cyflwyno drwy gydol y 3 cham fel a ganlyn:

- 24 Tachwedd 2008 – i rieni unigol sydd â phlentyn ifancaf rhwng 9 a 11 oed
- 26 Hydref 2009 – i rieni unigol sydd â phlentyn ifancaf rhwng 6 a 8 oed
- 25 Hydref 2010 – i rieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 6 oed.

Newidiadau i bob rhiant

1.12 Cyflwynwyd hyblygrwydd ychwanegol yn y rheoliadau Lwfans Ceisio Gwaith sy'n cydnabod y bydd rhai rhieni yn wynebu amgylchiadau sydd angen ystyriaeth arbennig. Mae hyn er mwyn diwallu eu hanghenion unigol a diogelu'r cwsmeriaid mwyaf diamddiffyn. Cyflwynwyd newidiadau gweithredol hefyd i ddarparu ar gyfer rhieni unigol mewn amgylchiadau penodol (gweler adran 2).

2. Newidiadau i'r Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant

2.1 Gwneir newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith er mwyn rhoi cysondeb/tegwch a hyblygrwydd i **bob ceiswyr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn sy'n byw yn eu cartref.**

Rheswm cyfiawn

2.2 Newidiwyd y rheoliadau fel bod rhaid i ymgynghorwyr ystyried argaeledd ac addasrwydd gofal plant wrth ystyried a oedd yn afresymol i'r person aros yn y swydd, os bydd ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn gadael swydd am resymau gofal plant. Rhaid i ymgynghorwyr ystyried unrhyw dreuliau gofal plant y bu'n rhaid i'r person eu talu oherwydd y swydd gan eu bod yn gyfran afresymol o uchel o enillion y person.

Achos da

2.3 Newidiwyd y rheoliadau i gwmpasu achosion lle, os bydd ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn gwrthod cymryd swydd neu'n gwrthod cydymffurfio â chyfarwyddyd ceisiwr gwaith am resymau gofal plant, yna rhaid i ymgynghorwyr ystyried argaeledd ac addasrwydd y gofal plant wrth ystyried p'un a oedd yn afresymol i berson ymwrthod â swydd neu gydymffurfio â'r cyfarwyddwyd ceisio gwaith. Rhaid i ymgynghorwyr ystyried unrhyw dreuliau gofal plant hefyd y bydd yn rhaid i'r person hwnnw eu talu o ganlyniad i'r gyflogaeth neu'r cyfarwyddyd.

Gofal plant fforddiadwy a phriodol

2.4 Nid yw'n bosibl rhoi diffiniad o'r gofal plant y gall ceisiwr gwaith ei ystyried yn fforddiadwy neu'n briodol i'w blentyn/plant gan fod pob achos yn wahanol. Bydd yn rhaid ystyried ffeithiau pob achos yn unigol.

Rhagolygon cyflogaeth resymol

2.5 Cyn 24 Tachwedd 2008 gall ceiswyr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn, mewn cytundeb â'u hymgynghorwyr, gyfyngu ar eu hargaeledd i 16 awr yr wythnos. Os byddant yn penderfynu cyfyngu ar eu hargaeledd yn y ffordd hon, mae'n rhaid eu bod wedi dangos fod ganddynt ragolygon rhesymol o gael cyflogaeth. Hyd yn oed os nad oedd amodau'r farchnad lafur lleol yn ffafriol (h.y. prinder swyddi rhan-amser ar gael), byddai angen iddynt fod ar gael o hyd am o leiaf 16 awr. Os na allant fodloni'r gofyniad hwn, ni fyddant wedi cael eu trin fel eu bod ar gael am waith ac ni fyddai'r Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei dalu.

2.6 Mae rheoliadau wedi cael eu diwygio fel y gall ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn sy'n dymuno cyfyngu ei argaeledd i 16 awr, ond ni fydd ganddynt ragolygon cyflogaeth resymol o sicrhau cyflogaeth oherwydd y nifer a'r mathau o swyddi ar gael yn yr ardal, gallant gyfyngu'r oriau y byddant ar gael i weithio hyd at isafswm o 16 awr heb gael ei gosbi. Yn yr amgylchiadau hyn, gallant barhau i gael eu taliadau Lwfans Ceisio Gwaith.

Argyfwng domestig

2.7 Mae rheoliadau hefyd wedi cael eu diwygio, felly os bydd marwolaeth, salwch difrifol neu argyfwng domestig yn ymwneud â rhiant unigol neu gyfaill agos, ymdrinnir â'r rhiant unigol fel bod ganddynt achos da dros beidio â mynychu'r Adolygiad Swydd Bob Pythefnos (FJR). Gall y Ganolfan Byd Gwaith hefyd dderbyn nad ydynt ar gael am waith am hyd at wythnos ar uchafswm o 4 gwaith mewn unrhyw 12 mis. Gall cynyddu un o'r cyfnodau hyn am hyd at 8 wythnos gyda gweddill i'w gymryd mewn cyfnodau o 3 wythnos unigol. Gall hyn ddigwydd unwaith mewn cyfnod o 12 mis. Os bydd angen rhagor o amser ar y ceisiwr gwaith, bydd eu hymgynghorydd yn ystyried os bydd yn fwy addas iddynt wneud cais am fudd-dal arall.

Gorchymyn/contract rhianta

2.8 Lle y mae gan geisiwr gwaith cytundeb rhianta (yng Nghymru a Lloegr) neu orchymyn rhianta (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban), newidiwyd y rheoliadau fel y gall y rhiant gyfyngu ei argaeledd am waith mewn unrhyw ffordd, cyn belled â bod y cyfyngiadau hyn yn rhesymol yng ngoleuni'r gorchymyn neu'r contract.

2.9 Newidiwyd y rheoliadau hefyd fel y caiff y ceisiwr gwaith, o dan yr amgylchiadau hyn, ei drin fel bod ag achos da dros beidio â mynychu ei Adolygiadau Swyddi Bob Pythefnos yn ystod cyfnod y gorchymyn neu'r contract.

Argaeledd ac wrthi'n chwilio am waith

2.10 Gall fod achosion lle na fydd ceiswyr gwaith yn gallu cael gofal plant fforddiadwy a phriodol yn ystod gwyliau'r ysgol (neu gyfnodau gwyliau tebyg) neu lle y caiff plentyn ei ddiarddel o'r ysgol. Cyn 24 Tachwedd 2008, byddant yn cael eu trin fel nad ydynt ar gael i weithio ac felly ni fyddai ganddynt yr hawl i gael Lwfans Ceisio Gwaith.

2.11 Newidiwyd y rheoliadau fel y gellir trin ceiswyr gwaith, sy'n wynebu anawsterau lle y cytunir nad oes gofal plant priodol, fforddiadwy ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol neu lle y caiff plentyn ei ddiarddel o'r ysgol, fel eu bod ar gael i weithio a gellir esgusodi presenoldeb.

Rhagolygon rhesymol ar yr amser i fynd i gyfweliad neu gymryd swydd

2.12 Cyn 24 Tachwedd 2008, yn ôl y rheoliadau, disgwylir i geisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu fynd i gyfweliad o fewn 48 awr a chymryd gwaith o fewn 7 diwrnod o gael cynnig. Mae'n bosibl na all ceiswyr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn wneud trefniadau gofal plant priodol o fewn yr amserlenni hyn.

2.13 Felly, newidiwyd y rheoliadau fel y gall ceiswyr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn 7 diwrnod i fynd i gyfweliad a 28 diwrnod i dderbyn cynnig swydd lle y gallent ddangos ei fod yn afresymol iddynt fodloni'r meini prawf presennol.

Newidiadau gweithredol

Cofrestru drwy'r post

2.14 Os na all ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn drefnu gofal plant byrdymor i'w alluogi i gofrestru, er enghraifft, yn ystod gwyliau'r ysgol, ac ni ellir gadael ei blentyn gartref ar ei ben ei hun neu mae'n anodd dod ag ef i'r Ganolfan Gwaith, er enghraifft, gan fod ganddynt broblemau ymddygiad, gallant gysylltu â'r Ganolfan Gwaith i drafod trefniadau amgen. Os caiff ei dderbyn nad oes gofal plant addas ar gael ar gyfer y cyfnod dan sylw, rhoddir trefniadau ar waith i alluogi'r rhiant i gofrestru drwy'r post.

Methu Mynychu/Methu â Darparu Datganiad wedi'i Lofnodi

2.15 Ni ddylid caniatáu ceisiadau os nad yw ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn mynychu pan fo hynny'n ofynnol neu gellir cau'r cais os nad ydynt wedi dangos achos da dros fethu o fewn 5 diwrnod gwaith. Byddwn yn gwneud o leiaf un ymgais i gysylltu â hwy dros y ffôn ar y diwrnod y mae'r ceisiwr gwaith yn methu â mynd i'w gyfweliad yn y Ganolfan Byd Gwaith. Byddwn hefyd yn anfon llythyr ar y diwrnod hwnnw i'w hysbysu o'r angen i gysylltu ar frys o fewn 5 diwrnod gwaith o'r apwyntiad ac i'w hysbysu y gellir effeithio ar eu budd-dal. Os na fyddant yn ymateb, daw eu budd-dal i ben ar ôl 5 diwrnod gwaith.

Amser teithio

2.16 Wrth sefydlu'r Cytundeb Ceisio Gwaith, bydd ymgynghorwyr yn ystyried amgylchiadau'r person wrth ystyried pa amser teithio i swydd sy'n rhesymol. Mae rheoliadau'r Lwfans Ceisio Gwaith yn pennu amser teithio o hyd at awr bob ffordd o fewn 13 wythnos gyntaf cais am Lwfans Ceisio Gwaith ac 1.5 awr bob ffordd ar ôl hynny. Byddai staff y Ganolfan Byd Gwaith yn ystyried cyfrifoldebau iechyd a gofal ac yn ystyried a yw'r amser teithio i swydd yn rhesymol, a byddent yn cynnwys unrhyw amser rhesymol i ollwng a chasglu eu plant o'r ysgol neu ofal plant.

3. Amserlen ar gyfer symud rhieni unigol oddi ar Gymhorthdal Incwm

3.1 Caiff y newidiadau eu cyflwyno dros 3 blynedd olynol ar gyfer cwsmeriaid sy'n rhieni unigol newydd/cwsmeriaid sy'n gwneud ail gais a rhieni unigol presennol. Yn gryno, dyma'r 3 cham:

3.1.1 **Mae Cam 1 yn dechrau ar 24 Tachwedd 2008 ar gyfer:**

Cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid sy'n gwneud ail gais

- Ni fydd gan y rhan fwyaf o rieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 12 oed neu drosodd, sy'n gwneud cais am fudd-dal yr hawl i gael Cymhorthdal Incwm.

Cwsmeriaid presennol

- Caiff y rhai sydd â phlentyn ifancaf sy'n 14 oed neu drosodd eu gwahodd i gyfweliad gwirfoddol o 5 Ionawr 2009 ac o 29 Mai 2009 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rhai sydd â phlentyn ifancaf sy'n 12 oed neu drosodd i gyfweliad gwirfoddol o 11 Mai 2009 ac o 31 Rhagfyr 2009 ni fydd y rhan fwyaf yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.

3.1.2 **Mae Cam 2 yn dechrau ar 26 Hydref 2009 ar gyfer:**

Cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid sy'n gwneud ail gais

- Ni fydd gan y rhan fwyaf o rieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 10 oed neu drosodd, sy'n gwneud cais am fudd-dal yr hawl i gael Cymhorthdal Incwm.

Cwsmeriaid presennol

- Caiff y rhai sydd â phlentyn ifancaf sy'n 11 oed neu drosodd eu gwahodd i gyfweliad gwirfoddol o 30 Tachwedd 2009 ac o 30 Ebrill 2010 ni fydd y rhan fwyaf yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rhai sydd â phlentyn ifancaf sy'n 10 oed neu drosodd i gyfweliad gwirfoddol o 12 Ebrill 2010 ac o 8 Medi 2010 ni fydd y rhan fwyaf yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.

3.1.3 **Mae Cam 3 yn dechrau ar 25 Hydref 2010 ar gyfer:**

Cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid sy'n gwneud ail gais

- Ni fydd gan y rhan fwyaf o rieni unigol sydd â phlentyn ifancaf sy'n 7 oed neu drosodd, sy'n gwneud cais am fudd-dal yr hawl i gael Cymhorthdal Incwm.

Cwsmeriaid presennol

- Caiff y rhai sydd â phlentyn ifancaf sy'n 9 oed neu drosodd eu gwahodd i gyfweliad gwirfoddol o 30 Awst 2010 ac o 31 Ionawr 2011 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rhai sydd â phlentyn ifancaf sy'n 7 oed neu drosodd i gyfweliad gwirfoddol o 25 Hydref 2010 ac o Ebrill 2011 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.

Gweler Atodiad 4 am fanylion llawn o bryd y daw taliadau Cymhorthdal Incwm rhieni unigol i ben.

4. Newidiadau ar gyfer grwpiau penodol

Gofalwyr maeth

4.1 Os bydd rhiant unigol yn maethu bydd ganddynt hawl i gael Cymhorthdal Incwm tra bod plentyn yn byw gyda hwy dan ei ofal. Rhaid i'r rhiant unigol hysbysu'r Ganolfan Byd Gwaith ar unwaith os bydd ei amgylchiadau yn newid.

Myfyrwyr

4.2 Cyn 24 Tachwedd 2008, roedd dal gan rieni unigol sy'n fyfyrwyr llawn amser yr hawl i gael Cymhorthdal Incwm. Fodd bynnag, nid yw myfyrwyr llawn amser yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith oherwydd y cânt eu trin fel pobl nad ydynt ar gael i weithio.

4.3 Mae'r Rheoliadau'n caniatau i rieni unigol sy'n fyfyriwr llawn amser neu sydd ar gwrs neu hyfforddiant llawn amser fel rhan o'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol neu fel rhan o gynllun cymeradwy sy'n bodloni amcanion y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol, barhau i gael Cymhorthdal Incwm am gyfnod cyfyngedig.

4.4 Bydd hyn yn galluogi'r rhiant unigol i aros ar Gymhorthdal Incwm o leiaf tan y dyddiad pan:

- daw'r cwrs i ben neu y byddant yn rhoi'r gorau i'w fynychu; neu
- mae ei blentyn ifancaf yn cyrraedd oedran lle y byddai ei hawl i fudd-dal wedi dod i ben o dan y rheoliadau a oedd ar waith pan ddechreuodd y cwrs (h.y. 16 oed cyn 24 Tachwedd 2008, 12 oed cyn 26 Hydref 2009 neu 10 oed cyn 25 Hydref 2010), pa un bynnag sydd gyntaf.

4.5 Ar gyfer rhieni unigol a ddechreuodd gwrs llawn amser neu sy'n dechrau cwrs llawn amser:

Cam Un – plentyn ifancaf yn 11-15 oed

- cyn 24 Tachwedd 2008, daw eu hawliad i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r cwrs neu pan ddaw eu plant ifancaf yn 16 oed, p'un bynnag sydd gyntaf;

Cam 2 – plentyn ifancaf yn 9-11 oed

- cyn 26 Hydref 2009, daw eu hawliad i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r cwrs neu pan ddaw eu plant ifancaf yn 12 oed, p'un bynnag sydd gyntaf;

Cam 3 – plentyn ifancaf yn 6-9 oed

- cyn 24 Hydref 2010, daw eu hawliad i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r cwrs neu pan ddaw eu plant ifancaf yn 10 oed, p'un bynnag sydd gyntaf;
- ar ôl 25 Hydref 2010 bydd yn destun yr un rheolau â rhieni unigol eraill a daw eu hawliad i ben pan ddaw eu plant ifancaf yn 7 oed.

Gwarchodwyr plant hunangyflogedig

4.6 Cyn 24 Tachwedd 2008, os oedd rhiant unigol yn warchodwr plant gallant weithio dros 16 awr yr wythnos a pharhau i hawlio Cymhorthdal Incwm. Ar ôl 24 Tachwedd 2008, nid oes ganddynt hawl i wneud cais am Gymhorthdal Incwm pan fydd eu plant ifancaf yn cyrraedd 12 oed.

4.7 Os byddant yn gweithio fel gwarchodwr plant am lai nag 16 awr yr wythnos bydd angen iddynt wneud cais am fudd-dal arall. Os byddant yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos cânt eu trin fel rhywun sydd mewn gwaith llawn amser ac ni fyddant yn gallu hawlio budd-dal arall. O ganlyniad bydd angen iddynt ennill arian fel person hunangyflogedig a chofrestru hwn gyda Chyllid a Thollau EM. Gallant hefyd fod yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith y gallant wneud cais amdano gan Gyllid a Thollau EM.

5. Taliadau a didyniadau eraill

Credyd Treth Plant

5.1 Mae nifer o rieni unigol yn cael Cymhorthdal Incwm y mae Cynnydd Dibyniaeth Plant (CDI) yn daladwy iddynt. Pan fydd y cwsmeriaid hyn yn gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith, ni fydd CDI yn daladwy a bydd angen i'r rhiant unigol wneud cais am Gredyd Treth Plant.

5.2 Anogwyd rhieni unigol i wneud cais am Gredyd Treth Plant o fis Medi 2008 pan aethant i Gyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith, mewn Digwyddiadau Opsiynau a Dewisiadau. Caiff hwn hefyd ei drafod yn eu cyfweliad gwirfoddol a ddylai gael ei gynnal 6 wythnos cyn i'w Cymhorthdal Incwm ddod i ben. Lle na wneir cais am Gredyd Treth Plant, defnyddir y ddeddfwriaeth Credyd Treth bresennol i hwyluso ceisiadau ar gyfer Credyd Treth Plant gyda'r bwriad o sicrhau y telir taliadau Credyd Treth Plant ymhell cyn i'r Cymhorthdal Incwm ddod i ben. Bydd hyn yn sicrhau cyfnod pontio didrafferth a bydd yn atal unrhyw fylchau mewn taliadau.

5.3 Fel dull diogelu ychwanegol, ac er mwyn ystyried ceisiadau am Gredyd Treth Plant a allai fod yn fwy anodd gwneud penderfyniadau arnynt, mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaeth ychwanegol fel y gall hawl i gael Cymhorthdal Incwm barhau am 4 wythnos arall mewn rhai achosion. Estynnir Cymhorthdal Incwm o 4 wythnos mewn achosion lle y gwnaed cais am Gredyd Treth Plant ond ni wnaed penderfyniad ar y dyddiad y byddai hawliad y rhiant unigol ddod i ben fel arall.

Didyniadau

5.4 Lle y mae gan riant unigol ddidyniadau ar waith o'i Gymhorthdal Incwm, byddwn yn trefnu iddynt barhau os roddir y budd-dal newydd.

Benthyciad pontio rhieni unigol

5.5 Pan ddaw Cymhorthdal Incwm i ben ac mae'r rhiant unigol yn gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith, ni ddylai fod toriad yn y taliadau maent yn eu cael os byddant yn dilyn y cyngor a roddir. Fodd bynnag, telir Cymhorthdal Incwm mewn ôl-ddyledion yn wythnosol ond telir Lwfans Ceisio Gwaith bob pythefnos mewn ôl-ddyledion. Bydd y newid hwn yn golygu y gallai fod bwlch rhwng y cyfnod y mae eu Cymhorthdal Incwm terfynol yn ei gwmpasu a thaliad cyntaf eu Lwfans Ceisio Gwaith.

5.6 Er enghraifft: telir eu Cymhorthdal Incwm ar ddydd Llun a chaiff ei dalu am y tro olaf ar 16eg Mawrth 2009. Fel arfer byddent yn disgwyl cael taliad arall o Gymhorthdal Incwm wythnos yn ddiweddarach, ar 23ain Mawrth, ond telir Lwfans Ceisio Gwaith bob pythefnos a bydd y diwrnod talu yn ddydd Iau bellach, felly bydd y taliad nesaf ar 26ain Mawrth.

5.7 Gall rhieni unigol wneud cais am fenthyciad pontio i gyflenwi'r bwlch hwn. Os byddant yn penderfynu bod angen iddynt wneud cais am fenthyciad pontio, byddwn yn cyfrifo faint y bydd ei angen arnynt o'r wybodaeth a roddant i ni yn y cyfweliad gwirfoddol 6 wythnos ac yn ei gadw nes y daw eu Cymhorthdal Incwm i ben. Cyn y gwneir y taliad, bydd Swyddog Penderfyniadau yn cysylltu â hwy dros y ffôn i'w sicrhau eu bod wedi mynd ymlaen i wneud cais am Lwfan Ceisio Gwaith gadarnhau eu bod am wneud cais am y benthyciad a gofyn iddynt am unrhyw newidiadau perthnasol ers iddynt roi'r wybodaeth. Wrth benderfynu a yw taliad yn ddyledus a faint, byddwn yn ystyried eu hamgylchiadau yn ogystal ag unrhyw incwm neu gynilion arall a allai fod ganddynt.

5.8 Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn defnyddio dulliau adennill presennol y Gronfa Gymdeithasol i adennill y benthyciad.

5.9 Dim ond i Gam 1 mae benthyciad pontio rhieni unigol yn gymwys gan y bydd aliniad y diwrnod talu a'r cyfnodoldeb wedi'u cyflwyno i Gam 2 ymlaen.

Diwrnod Talu a Chyfnodoldeb

5.10 O 6 Ebrill 2009, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn trosi'r cyfnodau talu ar gyfer y rhan fwyaf o'r budd-daliadau oedran gweithio (yn cynnwys Cymhorthdal Incwm) ac yn pennu diwrnod wythnos budd-dal yn dod i ben unigol ar gyfer pob unigolyn, waeth pa fudd-daliadau maent yn eu cael, gan dalu cwsmeriaid bob pythefnos mewn ôl-ddyledion ar gyfer wythnos budd-dal sy'n dod i ben a bennir gan rif Yswiriant Gwladol y cwsmer.

5.11 Gwneir y newid hwn mewn tri cham allweddol, sef:

Cam 1 – symud o fudd-dal a delir ymlaen llaw i dalu mewn ôl-ddyledion;
Cam 2 – symud i dalu budd-daliadau â lleiafswm o bythefnos mewn ôl-ddyledion; a
Cam 3 – symud i dalu budd-dal ar gyfer diwrnod wythnos budd-dal yn dod i ben cyffredin ar gyfer unigolyn.

Budd-daliadau ‘Pasbort’

5.12 Bydd y newid o Gymhorthdal Incwm i Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei drin fel newid mewn amgylchiadau at ddibenion Budd-dal Tai a Chredyd Treth Plant ac felly, ni ddylai fod unrhyw doriad i’r hawliad na thalu’r budd-daliadau hyn.

5.13 Bydd cwsmeriaid Cymhorthdal Incwm sy’n symud i Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei drin fel newid mewn amgylchiadau gan Awdurdod Lleol ac nid ymyrrir ar daliadau Budd-dal Tai na Chredyd Treth Plant. Bydd cwsmeriaid yn parhau i gael y budd-daliadau hyn.

6. Y broses ar gyfer terfynu Cymhorthdal Incwm

6.1 Dim ond ar gwsmeriaid presennol nad ydynt wedi'u heithrio y mae'r broses ganlynol yn effeithio ac mae'n egluro sut y daw eu Cymhorthdal Incwm i ben a'r camau nesaf i'w cymryd.

Cam 1

Gwahoddiad i gyfweliad gwirfoddol

6.2 **Wyth wythnos cyn** y daw Cymhorthdal Incwm rhiant unigol i ben, bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn ysgrifennu at y rhiant unigol i roi gwybod iddo pryd y caiff eu taliad olaf a'i wahodd am gyfweliad.

Cam 2

Y cyfweliad

6.3 Cynhelir eich cyfweliad **6 wythnos cyn** y daw Cymhorthdal Incwm y rhiant unigol i ben.

6.4 Os na fydd y rhiant unigol wedi dod o hyd i waith â thâl ar y cam hwn, bydd ymgynghorydd personol yn ei helpu i wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith os gallant weithio neu fudd-dal arall.

Cam 3

Yn y cyfweliad

6.5 Cynhelir cyfweliad gwirfoddol gan ymgynghorydd a disgwylir iddo bara 40 munud. Yn ystod y cyfweliad bydd yr ymgynghorydd yn:

- dweud wrth y rhiant unigol am sut a phryd y bydd y newidiadau yn effeithio arnynt;
- trafod y cymorth sydd ar gael i'w paratoi i symud i gyflogaeth â thâl;
- eu cynorthwyo i wneud cais am Gredyd Treth Plant os oes angen;
- trafod mynediad i'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol;
- egluro'r amodau hawliad os byddant yn penderfynu gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-dal arall;
- eu cynorthwyo i wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-dal arall;
- os yw'n briodol, dweud wrthynt sut i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl os oes ganddynt blentyn ag anabledd a'u cynorthwyo i wneud hynny;
- dweud wrthynt pryd y gallant ddisgwyl cael taliad cyntaf eu budd-dal newydd a'r cyfnod y bydd yn ei gwmpasu;
- cynghori'r rhiant unigol, os na allent gyllidebu ar gyfer y newid o daliadau wythnosol i daliadau bob pythefnos, y gallent wneud cais am fenthyciad pontio rhiant unigol a'u cynorthwyo i wneud hynny.

6.6 Rhoddir nodyn Camau Nesaf i'r rhiant unigol yn eu hysbysu o ddyddiad eu taliad Cymhorthdal Incwm olaf, dyddiad ac amser ei gyfweliad Ceiswyr Gwaith Newydd a dyddiad eu taliad Lwfans Ceisio Gwaith cyntaf. Bydd hefyd yn dangos cyfeiriad/manylion cyswllt ymholiadau'r Ganolfan Trafod Budd-daliadau.

Cam 4

Llythyr cwsmer cyn i Gymhorthdal Incwm ddod i ben

6.7 **Bedair wythnos cyn** i Gymhorthdal Incwm ddod i ben, bydd y rhiant unigol yn cael llythyr o'r Ganolfan Trafod Budd-daliadau yn ei hysbysu y daw ei Gymhorthdal Incwm i ben.

6.8 Os nad yw'r rhiant unigol wedi mynychu eu cyfweliad gwirfoddol ar y cam 6 wythnos, caiff ei wahodd i ail gyfweliad. Os na fydd y rhiant unigol yn mynd i'r ail gyfweliad, anfonir llythyr pellach yn egluro'r angen i gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.

6.9 Os na fu unrhyw gysylltiad gyda swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith yn ystod y 3 mis blaenorol, er enghraifft mewn Digwyddiad Opsiynau a Dewisiadau, Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith neu gyfweliad llwyth achosion, yna gellir ystyried ymweliad cartref.

Cam 5

Llythyr penderfyniad ffurfiol cwsmer

6.10 **Bum diwrnod cyn** i Gymhorthdal Incwm ddod i ben, bydd y rhiant unigol yn cael llythyr penderfyniad ffurfiol yn ei hysbysu y daw Cymhorthdal Incwm i ben.

7. Rhoi gwybod i rieni unigol am y newidiadau

Digwyddiadau Opsiynau a Dewisiadau

7.1 Caiff rhieni unigol eu gwahodd i ddigwyddiadau Opsiynau a Dewisiadau a fydd yn rhoi'r wybodaeth iddynt am sut y gall y Ganolfan Byd Gwaith a'n partneriaid eu helpu i baratoi i ddychwelyd i'r gwaith, sut y mae'r farchnad lafur leol yn gweithio i gefnogi rhieni unigol i ddychwelyd i'r gwaith ac egluro eu dewisiadau pan ddaw ei hawl i Gymhorthdal Incwm i ben.

7.2 Mae'r digwyddiadau hyn:

- yn cael eu hargymell i 12 i 15 o rieni unigol, wedi'u cynnal yn ystod oriau ysgol ac yn ystod y tymor, gan ganiatáu amser rhesymol i fynd â phlant i'r ysgol a'u casglu;
- yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau wedi'u harwain gan y Ganolfan Byd Gwaith a, lle y bo'n bosibl, yn cynnwys partneriaid a chyflogwyr eraill; ac
- yn cael eu cynnal mewn amgylchedd marchnad lafur proffesiynol mewn safleoedd cyflogwyr neu bartneriaid neu Ganolfannau Gwaith.

7.3 Ar ddiwedd y digwyddiad Opsiynau a Dewisiadau, caiff pob rhiant unigol y cyfle i gael eu gweld yn unigol, lle y bydd ymgynghorydd personol yn gweithio gyda hwy i nodi camau gweithredu penodol. Gall un o'r canlyniadau fod i ymuno â'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol.

Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith

7.4 Rhoddir gwybod i rieni unigol am y newidiadau yn eu Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith gorfodol.

Ymgyrchoedd postio ar gyfer rhieni unigol

